



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Llywodraeth Cymru**

Rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid 2024/25  
Nodiadau Cyfarwyddyd ar  
Gais a Chynllun Prosiect Cam 2

## Cynnwys

Cyflwyniad	2
1. Y broses ymgeisio	2
2. Yr hyn y byddwn yn ei gyllido	3
3. Y broses asesu	4
4. Cwblhau cynllun y prosiect	6

## Cyflwyniad

Mae ein hamgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn darparu gwasanaethau a chymorth hanfodol i gymunedau ledled Cymru. Hefyd, maent ar gael fel ffynonellau gwybodaeth, addysg a mwynhad i'r bobl sy'n ymweld â hwy.

Mae moderneiddio cyfleusterau i wella mynediad, sicrhau cydweithio rhwng gwasanaethau ac adnewyddu'r cynnig i ddefnyddwyr yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod hyn, ac mae'n cefnogi'r gwaith datblygu trwy ei rhaglen cyllid cyfalaf.

Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Rhaglen Cyfalaf Trawsnewid, sy'n galluogi'r cyrff llwyddiannus i drawsnewid gwasanaethau er mwyn:

- datblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau
- gwella gwasanaethau i unigolion a chymunedau amrywiol
- gwella datblygiad casgliadau, gofal amdanynt neu fynediad iddynt
- cyflawni yn erbyn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021-26 a blaenoriaethau strategol sefydliadol.
- cynnal a datblygu ansawdd gwasanaethau yn unol â chynlluniau safonol y sector.

### 1. Y broses ymgeisio

**Rhaid i geisiadau Cam 2 fod yn gyson â'r cynnig a nodwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb a gymeradwywyd. Dim ond ceisiadau a wahoddwyd i fynd o'r cam Datgan Diddordeb i Gam 2 (cais llawn) fydd yn cael eu derbyn.**

Nid yw Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus yn gwarantu llwyddiant na chyllid yng Ngham 2.

Mae'r amserlen ar gyfer cynllun grant 2024/25 fel a ganlyn:

Amserlen	Dyddiadau
Y cyfnod ymgeisio yn agor	28 Gorffennaf 2023
Gweminar cyngor a chymorth – 1	14 Awst 2023
Gweminar cyngor a chymorth – 2	30 Awst 2023
Gweminar cyngor a chymorth – 3	7 Medi 2023
Cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb	Erbyn 5pm 22 Medi 2023
Cyhoeddi penderfyniadau Cam 1	Yr wythnos yn dechrau 6 Tachwedd Hydref 2023
Cyflwyno Ceisiadau Cam 2	Erbyn 5pm 26 Ionawr 2024
Cyhoeddi penderfyniadau Cam 2	Ar neu cyn 29 Mawrth 2024.

Yng Ngham 2 rhaid i geisiadau llawn gael eu cyflwyno ar y Ffurflen Gais a ddarperir.

Bydd y wybodaeth a roddir mewn cais Cam 2 yn dibynnu ar natur a maint y prosiect a'i fath, a'r gweithgareddau neu fuddsoddiad a gynigir. Dylai pob prosiect esbonio sut y bydd yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'r gymuned, strategaethau cyfathrebu a threfniadau gwerthuso, gyda thystiolaeth ddogfennol lle bo'n berthnasol.

Gellir cyflwyno nifer o wahanol ddogfennau a ffynonellau gwybodaeth i gefnogi'r cais Cam 2 **lle bônt yn berthnasol i'r prosiect**. Gallai dogfennau o'r fath gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- cynlluniau busnes;
- dogfennau technegol megis dyluniad a manyleb ar gyfer adeiladau;
- caniatadau cynllunio, cymeradwyaethau rheoliadau adeiladu, cymeradwyaethau defnyddio eiddo;
- asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb;
- asesiadau o'r effaith amgylcheddol;
- astudiaethau dichonoldeb;
- tystiolaeth o ymarferiadau tendro cystadleuol am nwyddau neu wasanaethau;
- tystiolaeth o ymarferiadau caffael / cymariaethau cost eraill;
- adroddiadau ar ymgysylltu / ymgynghori â'r gymuned;
- strategaethau cyfathrebu; a
- manylion profiad / arbenigedd staff allweddol cyflawni'r prosiect.

**Dylech ddarllen y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.**

*Hefyd neilltuwyd ichi gynghorydd penodedig yn yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Mae'n hanfodol eich bod yn cysylltu ag e/hi am ragor o gyngor a chyfarwyddyd.*

Rhaid llenwi pob adran o'r Ffurflen Gais. **Byddwn yn gwrthod ffurflenni anghyflawn. Byddwn yn gwrthod hefyd ceisiadau Cam 2 na fydd yn cynnwys yr isafswm o 10% o ariannu cyfatebol sydd ei angen i fod yn gymwys am y cynllun hwn.**

**Sicrhewch fod y wybodaeth a ddarperir gennych mor gywir â phosibl. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd y wybodaeth a ddarperir yn sail i'n llythyr dyfarnu grant sy'n gytundeb cyfreithiol rwymol.**

Rhaid ichi lenwi'ch cais Cam 2 a'i gyflwyno i [diwylliant@llyw.cymru](mailto:diwylliant@llyw.cymru) erbyn 5pm 26 Ionawr 2024. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau ar ôl y dyddiad hwnnw.

## 2. Yr hyn y byddwn yn ei gyllido

Mae'r cyllid o dan y rhaglen hon ar gyfer costau cyfalaf yn unig. Mae gwariant cymwys yn cynnwys gwaith adeiladu a pheirianyddol, ffioedd proffesiynol, a ffitiadau / offer ychwanegol sy'n hanfodol i'r gwaith datblygu ehangach. Hefyd, caiff gwasanaethau wneud cais am gyllid ar gyfer seilwaith digidol sydd wedi'i fwriadu i alluogi

gwasanaethau i ddiwallu anghenion casgliadau o ran cadwraeth ddigidol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cymhwysedd elfennau o'ch prosiect, rhaid i chi gysylltu â'ch cynghorydd a enwir o fewn yr Is-adran Diwylliant.

Caiff ymgeiswyr ofyn am hyd at 10% o'r dyfarniad grant i gynorthwyo â chostau penodol staff rheoli prosiect. I gyrff yn y Trydydd Sector rydym yn cydnabod egwyddor Adennill Costau Llawn wrth gyflawni'r prosiect; fodd bynnag, dylai'r costau fod yn gymesur â'r grant y gofynnir amdano ac y manylir arno yn y cais

Caiff ymgeiswyr ond gofyn am arian am hyd at 2 flynedd ariannol, hynny yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn y cam Datgan Diddordeb. Rhaid bod yn glir yng nghynllun y prosiect pam mae cyllid am 2 flynedd yn hanfodol a faint o arian sydd ei angen bob blwyddyn.

Gellir gweld rhagor o fanylion am egwyddorion Adennill Costau Llawn a chanllawiau ar fodolau priodol ar gyfer cyfrifo cyfraniad teg at orbenion yma:

[Adennill Costau Llawn - Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#)

Dyfernir yr holl gymorth yn unol ag ymrwymadau rheoli cymhorthdal y DU, bydd ceisiadau'n cael eu hystyried fesul achos am y potensial ar gyfer cymhorthdal anghydnaws.

### 3. Y broses asesu

Caiff cymhwysedd eich cais ei wirio cyn iddo fynd ymlaen i gael ei asesu'n llawn. Bydd y gwiriadau hyn yn ymdrin â'r canlynol:

- iechyd sefydliadol, gan gynnwys ffurflenni a chyfrifon blynyddol y Comisiwn Elusennau
- cymhwysedd y costau
- amserlenni'r prosiect
- gwybodaeth am y cyflenwyr, gan gynnwys dyfynbrisiau ysgrifenedig oddi wrth yr HOLL gyflenwyr
- cadarnhad bod unrhyw ganiatâd angenrheidiol (caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig, ac ati) ar waith, gyda thystiolaeth ddogfennol
- cadarnhad o arian cyfatebol, gwerth o leiaf 10% o gyfanswm cost y prosiect h.y. cyfanswm cost y prosiect = 90% o'r grant y gofynnwyd amdano + 10% arian cyfatebol.

**Os bydd eich cais yn methu unrhyw un o'r gwiriadau hyn, bydd yn cael ei wrthod.**

Mae'r Ffurflen Gais Cam 2 yn gofyn ichi gwblhau Cynllun Prosiect (adran 3 o'r ffurflen); mae hwn wedi'i seilio ar dempled safonol sydd â saith pennawd:

- Ffit Strategol / Sail Resymegol a Nod y prosiect
- Gweithgaredd Prosiect

- Rheoli'r Prosiect (gan gynnwys asesiad risg)
- Gwerth am Arian
- Cyllid a Chydymffurfiaeth
- Mesur Llwyddiant
- Cynaliadwyedd Hirdymor

Rhoddir disgrifiad o bob pennawd a'r dystiolaeth ofynnol yn adran 4 o'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

**Bydd y wybodaeth a roddir o dan bob un o'r penawdau hyn yn cael ei defnyddio yn y broses asesu fel y sail i benderfyniadau ynghylch dyfarnu cymorth grant i brosiectau cymwys.**

Rhaid i fanylder yr atebion a roddir ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur â chwmpas a maint y prosiect arfaethedig.

Mae'n bosibl y bydd lefel yr arian cyfatebol / cymorth mewn nwyddau hefyd yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth roi'r ceisiadau yn eu trefn derfynol, pan fo prosiectau wedi cael sgôr gyfartal fel arall ond na all pob prosiect gael ei gyllido o'r gronfa grant. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu o leiaf 10% o gyfanswm cost y prosiect fel arian cyfatebol at y prosiect.

Bydd y wybodaeth a roddir yn cael ei hasesu yn erbyn y meini prawf sgorio canlynol:

<b>Uchel</b>
Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion trylwyr a manwl yn erbyn yr holl ofynion o ran tystiolaeth (5 pwynt)
<b>Canolig</b>
Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion boddhaol a manwl yn erbyn y rhan fwyaf o'r gofynion o ran tystiolaeth (3 phwynt)
<b>Isel</b>
Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion a allai fod yn anghyflawn neu'n annigonol yn erbyn un neu ragor o'r gofynion o ran tystiolaeth (1 pwynt)
<b>Isaf</b>
Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion anghyflawn neu annigonol yn erbyn un neu ragor o'r gofynion o ran tystiolaeth (0 pwyntiau)

**Bydd Panel Asesu'n adolygu eich cais yn erbyn y gofynion o ran tystiolaeth fel y nodir yn adran 4 o'r cyfarwyddyd hwn.**

**Bydd y sgôr a roddir yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarperir ym mhob adran o Gynllun y Prosiect a'r dogfennau ategol cysylltiedig.**

**Rhoddir sgôr i'r prosiectau am bob elfen (wedi'u pwysoli fel y ganlyn), ac wedi'u**

## rhestru allan o sgôr uchaf posibl o 185.

- Ffit Strategol / Sail Resymegol a Nod y prosiect - sgôr / 25 (wedi'i bwysoli i 50 / trothwy ansawdd 30)
- Gweithgaredd Prosiect – sgôr / 20 (trothwy ansawdd 12)
- Rheoli'r Prosiect (gan gynnwys asesiad risg) – sgôr / 15 (wedi'i bwysoli i 30 / trothwy ansawdd 18)
- Gwerth am Arian – sgôr / 10 (wedi'i bwysoli i 20 / trothwy ansawdd 12)
- Cyllid a Chydymffurfiaeth - sgôr / 15 (trothwy ansawdd 9)
- Mesur Llwyddiant - sgôr / 10 (wedi'i bwysoli i 20 / trothwy ansawdd 12)
- Cynaliadwyedd Hirdymor - sgôr / 10 (wedi'i bwysoli i 30 / trothwy ansawdd 18)

Mae trothwy ansawdd Cynlluniau Prosiect yn cynrychioli sgôr **Ganolig** o dan bob un o'r saith pennawd. Os bydd cynllun y prosiect yn methu'r trothwy ansawdd hwn o dan un neu fwy o'r penawdau uchod, caiff y prosiect ei wrthod.

### 4. Cwblhau cynllun y prosiect

Mae'r cyfarwyddyd canlynol yn nodi'r hyn mae angen ichi ei roi yn adran 3 o'r cais.

**Gofalwch fod yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn delio â phob un o'r meysydd a awgrymir yn y canllawiau ar gyfer pob pennawd isod.**

#### **Ffit Strategol (3.1) (500 eiriau ar y mwyaf) a Sail Resymegol a Nod y prosiect (3.1.1) (750 o eiriau ar y mwyaf)**

Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol:

- ***Pam mae angen y prosiect***
  - Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn helpu i gyflawni Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau strategol sefydliadol, yn enwedig mewn perthynas â **sut** y bydd y prosiect a'i weithgareddau'n cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Nodwch sut yr ydych yn bwriadu monitro effaith carbon eich cynnig.
  - Esboniwch yr angen mae'ch prosiect yn ei ddiwallu, a sut y canfuwyd hwn gan gyfeirio at dystiolaeth benodol o'r angen.
  - Esboniwch sut y bydd y prosiect yn cynorthwyo'ch cymuned, ac yn benodol unrhyw ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol (sydd wedi'u cynnwys ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
  - Rhowch fanylion y gwaith ymgynghori / ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi digwydd neu sydd yn yr arfaeth mewn perthynas â'ch

prosiect.

- ***Amcanion y prosiect***

- Rhestrwch amcanion y prosiect – nid oes nifer benodol, dylech gynnwys cynifer neu gyn lleied ag sydd eu hangen.

Lle bo'n berthnasol, dylech amgáu copïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth ategol.

### **Gweithgaredd Prosiect (3.2) (band A – 1000 o eiriau ar y mwyaf / band B 1500 o eiriau ar y mwyaf)**

Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar elfennau eich prosiect a ariennir gan grant:

- ***Yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud***

- Rhowch fanylion y gwaith strwythurol / adeiladu a fydd yn cael ei wneud fel rhan o'r prosiect, ac amgaewch gynlluniau.
- Rhowch fanylion gwelliannau i osodiadau a ffitiadau ac amgaewch unrhyw luniadau / cynlluniau.
- Rhowch fanylion gwelliannau arfaethedig i wasanaethau a gwelliannau i offer / cyfleusterau technolegol.
- Nodwch unrhyw welliannau i hygyrchedd.
- Nodwch fanylion y cysylltiad rhwng y prosiect a'i effeithiau carbon (amgylcheddol) cysylltiedig. Er mwyn mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a Natur a chefnogi'r nod Sero Net sy'n ganolog i'n Rhaglen Lywodraethu newydd (dolen uchod), mae angen i ni asesu'r cysylltiad rhwng ein buddsoddiadau arfaethedig mewn seilwaith a'u heffeithiau carbon (amgylcheddol) cysylltiedig.

- ***Sut yr ydych yn bwriadu ei wneud, a'r safonau y byddwch yn gweithio atyn nhw***

- Rhowch fanylion y ffordd y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni, ac unrhyw gyngor arbenigol yr ydych wedi'i gael i lywio'ch cynlluniau.
- Nodwch safonau perthnasol, ac esboniwch sut y byddwch yn sicrhau y bydd eich prosiect yn eu cyrraedd ac y bydd o ansawdd da.

- ***Amserlen i gyflawni'ch prosiect***

- Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud ac erbyn pryd? Nodwch gerrig milltir a dyddiadau targed gan ddefnyddio er enghraifft siart gantt.

Lle bo'n berthnasol, amgaewch gopïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth

ategol.

### Rheoli'r prosiect (3.3) (750 o eiriau ar y mwyaf)

Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol:

- **Trefniadau rheoli'r prosiect**
  - Esboniwch eich cynlluniau ar gyfer rheoli'r prosiect, gan roi sylw priodol i'r gweithgareddau sydd eu hangen, a'r capasiti sydd ar gael.
  - Nodwch brofiad Rheolwr y Prosiect, y tîm rheoli a rolau'r staff allweddol a fydd yn ymwneud â'r gwaith o gyflawni'r prosiect.
- **Sgiliau ac adnoddau**
  - Esboniwch sut y byddwch yn sicrhau bod y sgiliau gweithredol, technegol ac ariannol, a'r sgiliau o ran personél, i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus ar gael.
  - Lle bo'n briodol, esboniwch unrhyw fuddsoddiad i wella sgiliau'r staff presennol i helpu i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus.
  - Esboniwch sut y byddwch yn sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus ar gael.
- **Risg a rheoli risg**
  - Gan ddefnyddio'r tabl a ddarperir, rhowch grynodedb o'r prif risgiau a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni'r prosiect a'i ganlyniadau ac allbynnau.
  - Dylid asesu tebygolrwydd y risg yn unol â'r raddfa ganlynol:
  - UCHEL – Mae tebygolrwydd mawr y bydd y risg yn digwydd o dan yr amodau gweithredol presennol.
  - CANOLIG – Mae tebygolrwydd cymedrol y bydd y risg yn digwydd ar sail profiad y gorffennol a chyd-destun y corff.
  - ISEL – Mae tebygolrwydd bach y bydd hyn yn digwydd. Nid yw erioed neu bron erioed wedi digwydd o'r blaen.

Enghraifft:

Beth yw'r risg?	Beth yw'r tebygolrwydd	Beth fyddai'r canlyniadau pe bai'n digwydd?	Beth allai ei atal rhag digwydd neu sut gellid lleihau'r effaith?
-----------------	------------------------	---	---

	<b>y bydd yn digwydd?</b>		
Aelod o staff neu wirfoddolwr blaen y tŷ yn gadael	Canolig	Byddai'n rhaid i bobl sy'n gweithio ar y prosiect wneud ei waith gan arwain at lai o gapasiti i reoli'r prosiect hwn	Cynllun olyniaeth ar waith i lenwi swyddi gwag a / neu recriwtio rhagor o wirfoddolwyr cyn pen 2 fis ar ôl iddo adael. Grŵp wrth gefn o staff a / neu wirfoddolwyr yn cael eu briffio'n rheolaidd am y prosiect fel y gallant gamu i'r adwy os bydd swydd yn wag.

Lle bo'n berthnasol, amgaewch gopïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth ategol.

<b>Gwerth am arian (3.4) (500 o eiriau ar y mwyaf)</b>
<p>Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b><i>Gwariant arfaethedig</i></b> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cynhwyswch grynodedb ariannol o'r prosiect yn y daenlen a ddarparwyd (Taflen waith 1 – Crynodeb)</li> <li>○ Rhowch fanylion holl wariant arfaethedig elfennau'ch prosiect a ariennir gan grant, yn y daenlen a ddarperir – (Taflen waith 2 – Costau a Ariennir gan Grant)</li> <li>○ Rhowch gostau amlinellol ar gyfer elfennau o'r prosiect llawn a ariennir o ffynonellau eraill (os yn berthnasol) yn y daenlen a ddarperir - (Taflen waith 3 – Costau Eraill y Prosiect).</li> </ul> </li> <li>• <b><i>Penderfynu ar gostau</i></b> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Esboniwch sut yr amcangyfrifwyd y costau.</li> <li>○ Dangoswch sut y penderfynwyd bod y costau'n rhesymol trwy gyfeirio at ymarferiadau dyfynbrisiau; costau safonol o weithgareddau blaenorol; ac ati.</li> <li>○ Amgaewch gopïau o ddyfynbrisiau ysgrifenedig oddi wrth gyflenwyr gyda'r holl gostau wedi'u nodi.</li> </ul> </li> <li>• <b><i>Gwerth am arian</i></b> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Lle bo'n briodol dangoswch sut mae opsiynau gwahanol o ran</li> </ul> </li> </ul>

cyflawni amcanion y prosiect wedi cael eu hystyried ac esboniwch sut a pham y dewiswyd yr opsiwn y penderfynwyd arno.

Dylai'r holl gostau fod heb TAW oni bai nad ydych yn gallu hawlio'r elfen hon yn ôl.

**Bydd ceisiadau heb ddyfynbrisiau, neu sy'n anghyflawn mewn rhyw ffordd arall, yn cael eu gwrthod.**

Lle bo'n berthnasol, amgaewch gopïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth ategol.

### **Cyllid a chydymffurfiaeth (3.5) (band A – 500 o eiriau ar y mwyaf / band B 750 o eiriau ar y mwyaf)**

Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol:

- ***Cyfanswm cyllid y prosiect***

- Rhowch fanylion sut y bydd costau ehangach y prosiect yn cael eu cyllido, a sut y bydd yr arian cyfatebol yn cael ei wario.
- Rhowch amserlen dalu amlinellol yn y daenlen a ddarparwyd (Taflen waith 4 – Amserlen Daliadau\_. Os bydd eich prosiect yn llwyddiannus, byddwn yn disgwyl hawliadau o leiaf bob chwarter yn seiliedig ar gerrig milltir ac amserlen eich prosiect.
- Nodwch gyfraniad yr arian cyfatebol oddi wrth y rhiant gorff / corff llywodraethu, a nodwch a yw hyn wedi'i sicrhau neu a yw'n amodol o hyd.
- Nodwch unrhyw gyfraniad mewn nwyddau oddi wrth y rhiant gorff / corff llywodraethu. Gallai hyn gynnwys unrhyw orbenion ychwanegol sy'n gysylltiedig yn benodol â'r gwaith o gyflawni'r prosiect. Efallai bydd y cyngor yn y ddogfen hon yn ddefnyddiol, yn enwedig tudalen 5 - [Gwerth-Economaidd-Gwirfoddolwyr.pdf \(thirdsectorsupport.wales\)](#).
- Nodwch y ffynonellau cyllid eraill ar gyfer y cynnig hwn, a nodwch a yw pob ffynhonnell cyllid eisoes wedi'i sicrhau neu a yw'n amodol o hyd.
- Nodwch oblygiadau ariannol unrhyw ddiffyg yn y cyllid o ffynonellau eraill. A ellir bwrw ymlaen â'r prosiect o hyd?
- Nodwch y grant lleiaf sydd ei angen oddi wrth yr Is-adran Diwylliant a Chwaraeon er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect.
- Amlinellwch unrhyw gyllid blaenorol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru neu geisiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n berthnasol

i'r prosiect hwn

- **Esboniwch sut y byddwch yn delio â chynnydd mewn costau ac oedi os byddant yn codi. Amlinellwch pa weithgareddau yn y cais na fyddech yn parhau â nhw, neu sut y byddech yn dod o hyd i gyllid pellach i'ch galluogi i gwblhau'r prosiect cyfan.**
- **Y broses ar gyfer prynu nwyddau a gwasanaethau**
  - Nodwch brosesau pwrcasu / caffael eich corff ar gyfer cael nwyddau a gwasanaethau. Disgwyliwn i gyrff allu darparu tystiolaeth o arfer da wrth sicrhau bod y broses dendro'n gystadleuol. Dyma'r trothwyon ar gyfer cael dyfynbrisiau:

<b>Gwerth terfynol y nwyddau neu wasanaethau a brynir (heb gynnwys TAW)</b>	<b>Arfer da o ran tendro cystadleuol</b>
£0 - £4,999	Un dyfynbris ysgrifenedig
£5,000 – £24,999	Tri dyfynbris ysgrifenedig
£25,000 ac uwch	Cystadleuaeth lawn ac agored

**Amgawch gopïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth ategol.**

### **Mesur Llwyddiant (3.6) (500 o eiriau ar y mwyaf)**

Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol:

- **Canlyniadau disgwylidig**
  - Nodwch ganlyniadau disgwylidig y prosiect i bobl, cymunedau a chasgliadau (fel bo'n berthnasol); yn unol â'r dyheadau a nodir yn eich Datganiad o Ddiddordeb, er enghraifft:.
    - Sut bydd y prosiect yn gwella ansawdd bywyd a sgiliau preswylwyr, ymwelwyr a'r gymuned yn gyfan?
    - Sut bydd yn ehangu mynediad i gasgliadau a gwasanaethau?
    - Sut bydd yn hybu deilliannau dysgu, gan gynnwys dysgu gydol oes anffurfiol a ffurfiol, i grwpiau ac unigolion?
    - Sut bydd yn gwella'r ffordd y rheolir casgliadau neu'n sicrhau y bodlonir gofynion cadwraeth?
    - Sut bydd y prosiect yn datblygu eich gwasanaeth a'ch staff?
- **Monitro a gwerthuso**
  - Rhowch fanylion y ffordd y byddwch yn monitro, mesur a gwerthuso

effaith feintiol ac ansoddol y canlyniadau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect fel y nodir uchod.

- Rhowch fanylion sut y byddwch yn rhannu profiadau a gwersi a ddysgwyd gyda'r sector ehangach.

- ***Dangosyddion perfformiad***

- Rhowch hyd at 3 dangosydd perfformiad CAMPUS sy'n mesur llwyddiant eich prosiect, yn unol â chanlyniadau disgwylidig y prosiect.
- Dylai dangosydd CAMPUS fod yn un Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

Rhoddir rhai enghreifftiau o wahanol fathau o ddangosydd perfformiad CAMPUS isod. Dylid teilwra dangosyddion eich prosiect chi i roi sylw i ganlyniadau disgwylidig y prosiect:

- Cynnwys ar-lein, digwyddiadau ac arddangosiadau Rhaglen XX (neu Gasglu XX o wrthrychau/cofnodion) sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chymunedau amrywiol mewn X blwyddyn yn dilyn diwedd y prosiect.
- Cynyddu teimladau o les ymhlith cyfranogwyr y prosiect o XX% ar ddechrau'r prosiect i XX% ar ddiwedd [Pecyn Cymorth Mesurau Lles Amgueddfeydd UCL](#)
- Cynyddu'r defnydd o [yr amgueddfa / archif / llyfrgell] o x i y] yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cwblhau'r prosiect. Y dyddiad cwblhau a ragwelir yw [dyddiad].
- Recriwtio a hyfforddi [x] o wirfoddolwyr ychwanegol i gefnogi gwaith [y gwasanaeth] yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cwblhau'r prosiect. Y dyddiad cwblhau a ragwelir yw [dyddiad] - y nifer o wirfoddolwyr ar hyn o bryd yw [x].
- Safonau gofalu am gasgliadau treftadaeth ar ôl cwblhau'r prosiect wedi gwella, Caiff casgliadau treftadaeth eu storio as/neu eu dangos o dan amodau diogel a sicr sy'n cydymffurfio gymaint ag y medir â BS EN 16893:2018.
- Bydd casgliadau'n yn cael eu storio o dan amodau sy'n bodloni'r safonau a argymhellir ar gyfer amodau amgylcheddol [*Ar gyfer casgliadau amgueddfeydd, derbynnir yn gyffredinol bod amodau priodol yn golygu 15-25°C gyda goddefiant o +/-1°C a lleithder cymharol o rhwng 45-60% gyda goddefiant o +/-5% dros unrhyw gyfnod penodol o 24 awr.*]
- Nodir yr amodau ar gyfer casgliadau llyfrgelloedd ac archifdai yn BS4917: 2017

- Dylid darparu tystiolaeth o welliant yn yr amodau amgylcheddol trwy gymharu data amgylcheddol o'r cyfnod cyn cwblhau'r prosiect a'r cyfnod ar ôl ei gwblhau.
- Lleihau ôl troed carbon y sefydliad o XX cyn i'r prosiect ddechrau i XX ar ddiwedd y prosiect.

Lle bo'n berthnasol, amgaewch gopïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth ategol.

### **Cynaliadwyedd Hirdymor (3.7) (500 o eiriau ar y mwyaf)**

Mae angen ichi roi esboniad o'r canlynol:

- ***Cynaliadwyedd y gwasanaeth***
  - Esboniwch sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at gynaliadwyedd a chydnerthedd y gwasanaeth.
- ***Datblygiadau yn y dyfodol***
  - Esboniwch sut y bydd cyflawniadau'r prosiect yn cael eu cynnal a'u datblygu yn y tymor hirach.
  - Eglurwch sut y byddwch yn talu am unrhyw gostau refferiw ychwanegol sy'n deillio o'r prosiect.
  - Rhowch fanylion y ffordd yr ydych yn bwriadu hyrwyddo'r gwasanaeth ar ôl i'r gwelliannau gael eu cwblhau.

Lle bo'n berthnasol, amgaewch gopïau o ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth ategol.

## **5. Gofynion Prosiectau Llwyddiannus**

Fel gofyniad lleiaf, bydd prosiectau a ariennir yn darparu diweddariadau ar eu cynnydd bob chwarter trwy gwblhau a chyflwyno templed. Bydd y templed hwn yn cael ei ddarparu i brosiectau llwyddiannus yn ystod y cam dyfarnu ac yn cyd-fynd ag amserlen hawlio y cytunwyd arni.

Bydd angen cyflwyno adroddiadau cynnydd chwarterol ynghyd â dadansoddiad ariannol a chofrestr risg wedi'i diweddarau.

Bydd angen cytuno'n ysgrifenedig ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r costau neu'r cyflawni a gytunwyd ar gyfer y prosiect, cyn iddynt gael eu gweithredu

Gall methu â chwblhau a chyflwyno'r adroddiadau cynnydd mewn amser neu gyflwyno hawliadau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, yn arwain at wrthod taliadau a/neu arian yn cael ei dynnu i ffwrdd.

## **6. Lle alla i gael cymorth?**

Os oes angen i chi drafod unrhyw elfen o'ch cais, cysylltwch â'r cynghorydd sector perthnasol yn yr Is-adran Ddiwylliant gan ddefnyddio'r manylion isod:

Ebost: [diwylliant@llyw.cymru](mailto:diwylliant@llyw.cymru)

Ffôn: 0300 062 2112